Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg

20 Ionawr 2021

Annwyl Eluned,

**Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau**

Rwy'n ysgrifennu i roi casgliadau'r Pwyllgor i chi, ar ôl iddo ystyried Cytundeb Amlinellol y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau.

Yn amgaeedig gyda'r llythyr hwn mae papur byr yn amlinellu ein casgliadau. Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys nifer o bwyntiau y byddem yn croesawu cael eich ymateb iddynt.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am y modd agored ac adeiladol yr ydych wedi ymateb i'n gwaith craffu ar y Fframwaith dros dro hwn hyd yma.

Yng ngoleuni'r amser cyfyngedig sydd ar ôl gennym yn y Senedd bresennol, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 22 Chwefror 2021.

Rwyf wedi copïo'r ohebiaeth hon i Gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Cadeirydd Pwyllgor Swyddfa Weithredol Cynulliad Gogledd Iwerddon, ac i Gynullydd Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

# Barn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi barn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau yn dilyn gwaith craffu cychwynnol.

2. Mae wedi'i gyfeirio at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

## Craffu ar y Fframwaith hwn

3. Rydym yn ddiolchgar ichi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2020 ac am ymdrechion eich swyddogion i'n cynorthwyo â'n gwaith craffu ar y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau ("y Fframwaith dros dro").

4. Mae craffu ar y Fframwaith dros dro hwn wedi'i gymhlethu gan y ffaith bod rhannau o'r Fframwaith dros dro yn parhau'n destun trafodaeth rynglywodraethol barhaus. Yn ogystal, mae datblygiadau gwleidyddol sylweddol wedi digwydd yn ystod y cyfnod yr ydym wedi bod yn ystyried y Fframwaith dros dro hwn.

5. Er ein bod yn deall bod angen cytuno ar Fframwaith dros dro, byddem yn rhybuddio Llywodraeth Cymru rhag cadarnhau'r Fframwaith yn derfynol nes:

   - **mae meysydd y Fframwaith dros dro sy'n destun trafodaeth barhaus wedi'u datrys; a**
   - **mae goblygiadau datblygiadau diweddar (fel y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE, a Deddf Marciwr Mewnol y DU 2020) wedi'u hasesu'n drylwyr a bod y Fframwaith dros dro wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.**

6. O ystyried yr angen tebygol am newidiadau sylweddol i'r Fframwaith dros dro, credwn y dylid ailagor y Fframwaith ar gyfer craffu arno ar ôl ymdrin â'r pwyntiau uchod, a chyn ei gadarnhau'n derfynol.

7. Rydym yn ymdrin â hyn ymhellach o dan yr adran "Craffu yn y dyfodol" isod.

## Pwyllgorau arbenigol

8. Yn ein cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2020, gwnaethom gwestiynu pam nad oedd cynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru ar Bwyllgor Honiadau Maethiad ac Iechyd y DU (UKNHCC) h.y. nid oedd dim aelodau o’r Pwyllgor yn cynrychioli sefydliad o Gymru.

9. Fe wnaethoch egluro bod hyn o ganlyniad i ddim ceisiadau wedi dod i law gan unigolion o Gymru ac nad yw'r aelodaeth yn seiliedig ar gynrychiolaeth ddaearyddol.

10. Rydym yn derbyn y pwynt a wnewch nad yw’r aelodaeth ar sail ddaearyddol. Serch hynny, **credwn ei bod yn bwysig bod pob ymdrech yn cael ei gwneud yn y dyfodol i roi cyhoeddusrwydd i recriwtio i'r Pwyllgor hwn a bod sylw arbenigwyr perthnasol yng Nghymru yn cael ei dynnu ato.**

11. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn ystyried sut y bydd yn cyfrannu at ariannu Pwyllgor Honiadau am Faethiad ac Iechyd y DU (UKNHCC) yn y blynyddoedd nesaf.

12. **Mae'n bwysig sicrhau bod gwaith UKNHCC mor dryloyw â phosibl a gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd gwaith UKNHCC yn cael ei gyfathrebu mewn modd tryloyw â'r Senedd yn y dyfodol.**

## Cymhwysedd gweithrediaeth

13. Ymddengys bod y Fframwaith dros dro, yn ymarferol, yn lleihau cymhwysedd Gweinidogion Cymru o ran ei ddull o gymeradwyo honiadau am faethiad ac iechyd, o’i gymharu â Rheoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019 (“rheoliadau 2019”).

14. Mae rheoliadau 2019 yn darparu mai’r awdurdod priodol ar gyfer ceisiadau o ran honiadau am faethiad ac iechyd newydd yw Gweinidogion Cymru, neu’r Ysgrifennydd Gwladol gyda’u caniatâd. Maent yn darparu, pan fydd busnes yn gwneud cais o ran honiad am faethiad neu iechyd mewn un rhan o Brydain Fawr, y dylai'r awdurdod yn y rhan honno o Brydain Fawr wneud penderfyniad ar y cais hwnnw ar ôl ymgynghori ag awdurdodau mewn rhannau eraill o Brydain Fawr. Pan fydd busnes yn gwneud cais i honiad am faethiad neu iechyd gael ei gymeradwyo ledled Prydain Fawr, rhaid i bob awdurdod ymgynghori â'i gilydd a chytuno, cyn bo'r honiad yn cael ei gymeradwyo.

15. Mae’n ymddangos bod y Fframwaith yn creu rhagdybiaeth, hyd yn oed pan nad yw busnes ond wedi gwneud cais mewn un rhan o Brydain Fawr, bod yn

rhaid i’r llywodraethau benderfynu a oes angen dull cyffredin ledled Prydain Fawr. Os nad ydyn nhw'n cytuno, caiff y broses ddatrys anghydfod ei sbarduno. Os na cheir cytundeb drwy'r broses datrys anghydfodau, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

**16.** Ymddengys bod y Fframwaith dros dro hefyd yn lleihau effaith ymarferol cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau polisi o ran cwmpas y Fframwaith drwy reoliadau, neu i wneud newidiadau i restrau a chofrestrau perthnasol yng Nghymru.

**17.** Mae rheoliadau 2019 yn galluogi Gweinidogion Cymru, neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'u caniatâd, i wneud newidiadau o'r fath.

**18.** Fodd bynnag, mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud drwy'r broses benderfynu ar y cyd. Os yw'r llywodraethau'n anghytuno ynghylch a yw ymwahanu yn dderbyniol, caiff y broses datrys anghydfodau ei sbarduno. Byddai cam olaf y mecanwaith datrys anghydfodau yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ar ran Prydain Fawr yn gyfan. Mae'n ymddangos y byddai hyn yn gymwys hyd yn oed pe na bai'r llywodraethau datganoledig wedi rhoi eu caniatâd.

**19.** **Rydym yn pryderu bod y trefniant hwn yn creu anghydbwysedd o blaid Ysgrifennydd Gwladol y DU, sy'n gweithredu dros Loegr yn unig yn y maes polisi hwn.**

**20.** **Byddem yn ddiolchgar o gael esboniad pellach o'ch dealltwriaeth chi o sut mae'r Fframwaith dros dro yn effeithio ar gymhwysedd Gweinidogion Cymru yn ymarferol.**

## Craffu yn y dyfodol

**21.** Nid yw'r Fframwaith dros dro, oherwydd amseriad ei ddrafftio, yn ystyried datblygiadau perthnasol sylweddol, fel deddfu o ran Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a’r UE, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020, a’r drafodaeth barhaus ynghylch cyfeirio at rwymedigaethau rhyngwladol y DU mewn dogfennau fframwaith.

**22.** Mae'r datblygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o'r Fframwaith dros dro bron yn syth, i'r graddau ei fod yn codi cwestiwn ynghylch

pa mor ddefnyddiol yw craffu ar y fersiwn o'r Fframwaith dros dro yr ydym wedi bod yn ei ystyried.

**23.** Yn ogystal, mae nifer o feysydd y Fframwaith dros dro yn destun trafodaeth rynglywodraethol barhaus, er enghraifft, mewn perthynas â chysylltiadau a pholisi rhyngwladol.

**24.** Yn ein hadroddiad yn 2019 ar waith y Senedd yn craffu ar fframweithiau cyffredin, gwnaethom argymell bod pob fframwaith yn cynnwys cynllun gweithredu ar ôl y cytundeb, y dylid gosod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn ôl y cynllun hwnnw gerbron y Senedd, ac y dylid rhoi hysbysiad i'r Senedd am unrhyw newidiadau i fframwaith drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

**25.** Yng ngoleuni'r diwygiadau sylweddol sydd eu hangen yn awr i'r Fframwaith dros dro, mae'n hanfodol bod y Senedd yn cael cyfle i graffu ar y fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith dros dro ar ôl i Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) (JMC EN) (neu fforwm rhynglywodraethol cyfatebol) gytuno dros dro arno, ond, yn hollbwysig, cyn cytuno'n derfynol ar y fersiwn ddiwygiedig hon o'r Fframwaith.

**26.** Mae hwn yn gam ychwanegol i'r camau a argymhellwyd yn ein hadroddiad yn 2019.

**27.** Wedi dweud hynny, rydym yn ailadrodd ein hymrwymiad i'n hargymhelliad gwreiddiol yn 2019, fel y mae'n ymwneud â'r Fframwaith hwn. Disgwyliwn i'r Senedd gael gwybod am unrhyw adolygiad o'r Fframwaith, a chanlyniad unrhyw adolygiad. Mae hyn yn gymwys i'r pwyntiau adolygu a bennir yn y Fframwaith dros dro ac unrhyw adolygiad arall a allai gael ei gynnal.[1]

**28.** Rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan bwyllgorau yn Nhŷ'r Arglwyddi a Senedd yr Alban i'w Gweinidogion priodol o ran gosod adroddiad blynyddol grŵp polisi Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau, ac rydym yn croesawu eich cadarnhad eich bod wedi gofyn bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei ddosbarthu i Bwyllgorau perthnasol y Senedd.

---

[1] Mae'r Fframwaith dros dro yn nodi y bydd y Fframwaith *"[...] will be formally reviewed six months, one year, and three years after implementation; and thereafter at three-yearly intervals from the end of the TP"*.

**29.** Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu, mewn ymateb i'r llythyr hwn:

- **y cynnydd tuag at gael cytundeb rhynglywodraethol i osod adroddiad blynyddol grŵp polisi Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau** gerbron y Senedd;
- **eich ymateb i'n barn y dylai fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith dros dro gael ei darparu i'r Senedd i graffu ymhellach arni unwaith y bydd y drafodaeth ar y datblygiadau diweddar wedi'i hymgorffori (yn ôl y telerau a ddisgrifir ym mharagraff 25 uchod) a'r amserlen ar gyfer unrhyw adolygiad; a**
- **sut y byddwch yn rhoi hysbysiad i'r Senedd ynghylch canlyniad pob adolygiad o'r Fframwaith yn y dyfodol.**

---